Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru) - Cwestiynau Ymgynghori

Yn cau 01 June 2023
Ymateb a gyflwynwyd drwy'r arolwg ar-lein.

## Cwestiynau

**Cwestiwn 1: A yw'r diffiniadau a gynigir o dacsi, cerbyd hurio preifat, hurio yn y fan a'r lle ac archebu ymlaen llaw yn briodol? Rhowch sylwadau gan gynnwys unrhyw beth sydd yn eich barn chi yn eisiau yn y diffiniadau?**
Mewn egwyddor, mae'r diffiniadau'n ymddangos yn glir ac yn dangos y gwahaniaeth rhwng tacsis a cherbydau hurio preifat a ble maent yn gorgyffwrdd. Er hynny, efallai bod y diffiniad yn ddiffygiol o ran cydnabod bod y ddau fath o gludiant yn rhai trwyddedig, a bod gyrwyr yn destun gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chymhwyster.

**Cwestiwn 2: A ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gyflwyno safonau gofynnol cenedlaethol fydd yn gymwys i bob tacsi ac CHP yng Nghymru? Rhowch sylwadau.**
Ydym, rydym yn cytuno â'r cynnig am safon ofynnol genedlaethol i sicrhau cysondeb ar draws Cymru a lleihau unrhyw risgiau posibl i gleientiaid, cerddwyr a defnyddwyr eraill y ffordd.

**Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau lleol orfod cynnig trwyddedau gyrru tacsi ac CHP ar wahân yn ogystal â chynnig trwydded ddeuol? Rhowch sylwadau.**
Mewn egwyddor, rydym yn cytuno â'r cynnig ond dylai bod cyfle i awdurdodau lleol gydweithio i reoli fel y mae rhai eisoes yn ei wneud gyda gwasanaethau gorfodi. Er enghraifft, ar gyfer awdurdod lleol gwledig fel Sir Fynwy, neu awdurdodau llai fel Blaenau Gwent neu Torfaen, mae'n bosibl y bydd yn cymryd mwy o adnoddau nag sy'n ymarferol i'w wneud i gynnig pob un o'r tri dewis, ond os allant gydweithio neu o bosibl gweithio ar y cyd gydag awdurdod arall, fel Casnewydd neu Gaerffili, gallant leihau'r effaith ar bob awdurdod lleol unigol.

**Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â'r safonau gofynnol cenedlaethol a gynigir ar gyfer trwyddedau gyrru? Nodwch unrhyw safonau sydd angen yn eich barn chi eu dileu, eu newid neu eu hychwanegu.**
Rydym yn cytuno'n rhannol â'r cynigion. Fodd bynnag, er mwyn cyfyngu ar wahaniaethu ar sail oedran a sicrhau bod holl yrwyr cerbydau o'r fath yn ddiogel, rydym yn credu y dylid cynnal gwiriad meddygol grŵp 2 cyson yn rheolaidd i bob oedran.

Teimlwn y dylai'r wybodaeth sylfaenol ar gyfer rhedeg busnes fod yr un fath ar gyfer gyrwyr cerbydau hurio preifat gan ei fod yn bosibl bod rhai ohonynt, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn weithredwyr sengl neu'n cael eu hystyried fel gweithwyr hunangyflogedig ac yna'n gysylltiedig â gweithredwr.

Credwn y dylid cyfeirio'n benodol at hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a hyfforddiant diogelu, yn cynnwys beth i'w wneud os yw gyrrwr neu weithredwr yn amau bod rhywun yn ddioddefwr neu os yw rhywun yn crybwyll eu bod yn ddioddefwr.

Mae'r ymgynghoriad yn rhestru nifer o faterion i'w cynnwys yn y cymhwyster rheoledig gan enwi llinellau sirol yn benodol, dim ond un math o drosedd gyfundrefnol ddifrifol yw hon ac felly byddem yn awgrymu bod y geiriad yn cael ei newid i ymwybyddiaeth o droseddu cyfundrefnol difrifol yn cynnwys llinellau sirol. Mae ymwybyddiaeth iechyd meddwl yn cael ei restru yr ydym yn cytuno ag ef, er hynny, rydym yn credu efallai y byddai'n werth ystyried ei ymestyn i ymwybyddiaeth iechyd meddwl a lles meddyliol yn cynnwys ymwybyddiaeth o hunanladdiad.

**Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'r safonau gofynnol cenedlaethol a gynigir ar gyfer trwydded cerbyd? Nodwch unrhyw safonau sydd angen yn eich barn chi eu dileu, eu newid neu eu hychwanegu.**
Gan fod yno ofyniad i'r Gymraeg gael ei thrin yr un fath â'r Saesneg, roedd y gofyniad "Pob tacsi i arddangos golau ar y to sy'n dangos y geiriau 'Taxi' a/neu 'Tacsi' yn unig" yn peri dryswch i ni.  Er tegwch i'r Gymraeg, yn ein barn ni, ni ddylid cynnwys yr opsiwn 'neu'.

Nid yw'n ymddangos fel pe bai llawer o fanylion i roi sylwadau fel y gwelir ym mhwynt bwled "Cyfyngiadau oed ar gyfer cerbydau/gofynion allyriadau…"  Ond heb y manylion, mae'n anodd rhoi unrhyw ymateb penodol.  Os yw'r manylion yn cael eu nodi mewn canllawiau neu ddeddfwriaeth ar wahân, byddai'n ddefnyddiol nodi hyn fel bod eglurder o ran lle mae dod o hyd i'r wybodaeth hon i roi sicrwydd i'r cyhoedd yn ogystal ag i'r rhai sydd eisiau trwyddedu eu cerbyd(au).

Byddem yn disgwyl gweld rhywbeth mewn perthynas ag yswiriant a bod y cerbyd yn addas ar gyfer y ffordd a bod ganddo MOT cyfredol, bod y cerbyd wedi'i yswirio ac wedi'i yswirio i gludo teithwyr sy'n talu.

Os nad y perchennog yw'r gyrrwr yna dylid nodi hyn er mwyn hwylustod i deithwyr os ydynt eisiau rhoi gwybod am unrhyw faterion yn ymwneud ag unrhyw gerbyd penodol.

**Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno â'r safonau gofynnol cenedlaethol a gynigir ar gyfer trwydded gweithredwr? Nodwch unrhyw safonau sydd angen yn eich barn chi eu dileu, eu newid neu eu hychwanegu.**
Mewn egwyddor, rydym yn cytuno, fodd bynnag, rydym yn nodi y bydd gofyn iddynt gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pan fyddant yn adnewyddu eu trwydded ac rydym yn credu y dylai hyn gael ei nodi fel o leiaf unwaith bob blwyddyn.

Yn ogystal â hyn, fe ddylai pawb sy’n gweithio yn swyddfa’r gweithredwr hefyd gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar yr un amlder gan eu bod yn debygol o fod yn ymdrin â gwybodaeth sy’n nodi unigolion diamddiffyn, fel defnyddwyr cadeiriau olwyn ac ati, ac felly dylai fod gofyniad yn ymwneud â diogelu ar gyfer oedolion a phlant.

Er bod y cynnig yn cynnwys sut fyddant yn ymdrin â’r rheiny sydd ag anghenion ychwanegol ac ati, nid oes unrhyw beth wedi’i nodi o ran rheoli’r rhai sy’n ddiamddiffyn, p’un a bod hynny mewn perthynas â Thrais yn Erbyn Merched a Genethod sy’n hynod o berthnasol yn economi’r nos lle gall merch sydd ar ei phen ei hun fod yn fwy diamddiffyn ac eisiau gwneud taith fer y byddai hi fel arfer yn ei cherdded yn ystod y dydd.

Dylid hefyd cael polisi yn ymwneud â cham-drin domestig a dim goddefgarwch ar gyfer penodi unrhyw un sydd wedi cyflawni troseddau cam-drin domestig i fod yn yrwyr, gweithredwyr neu berchnogion gan eu bod eisoes wedi dangos y gallu i fod yn dreisgar a/neu reoli drwy orfodi.  Credwn y dylid cyfeirio’n benodol at hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a hyfforddiant diogelu, yn cynnwys beth i’w wneud os yw gyrrwr neu weithredwr yn amau bod rhywun yn ddioddefwr neu os yw rhywun yn crybwyll eu bod yn ddioddefwr.

Byddem yn disgwyl neu eisiau gweld cefnogaeth ar gyfer cludo cŵn tywys neu anifeiliaid cymorth yn ddiamheuol yn hytrach na gweld pobl ddiamddiffyn yn cael trafferth gwneud eu ffordd adref eu hunain.  Os oes gan yrrwr tacsi neu gerbyd hurio preifat alergedd neu reswm meddygol ardystiedig arall dros beidio â chludo anifeiliaid dof yna dylid nodi’n glir sut fydd hyn yn cael ei reoli ac ni ddylai’r gweithredwr wneud unrhyw archebion gyda’r gyrwyr dan sylw mewn amgylchiadau o’r fath.

Ni ymddengys fod unrhyw beth yn y cynnig sy’n ymwneud â rheoli data a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data a rhedeg systemau diogel, yn enwedig lle mae’r archebu’n cael ei wneud ar-lein a/neu lle mae manylion yn cael eu rhannu’n electronig neu dros y ffôn rhwng y gweithredwr a’r gyrrwr.  Mae angen atal teithwyr presennol rhag gweld manylion teithwyr y dyfodol, er enghraifft, gall hyd yn oed cod post mewn ardal wledig adnabod dim ond un, dau neu dri eiddo ond mewn tref neu ddinas gall adnabod 50 o gartrefi neu fwy.

**Cwestiwn 7: Yn ychwanegol at y safonau gofynnol cenedlaethol, ydych chi'n credu y dylai awdurdodau lleol gael y dewis i osod safonau/gofynion lleol ychwanegol ar yrwyr, cerbydau a gweithredwyr yn eu hardal? Os ydych, beth ydych chi'n meddwl y dylen nhw eu cwmpasu?**
Credwn y dylid cael safonau cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg a cherbydau hygyrch i gadeiriau olwyn gan fod y ddau ohonynt wedi’u cynnwys mewn deddfwriaeth cydraddoldeb felly rydym yn ansicr pam eu bod wedi’u rhestru y tu hwnt i’r safonau gofynnol cenedlaethol ac yn meddwl y dylent gael eu symud i fod o fewn y safonau gofynnol.

**Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer gweinyddu trwyddedau'n lleol? Rhowch sylwadau.**
Mewn egwyddor, maent yn ymddangos yn glir ac yn deg, fodd bynnag, rydym yn pryderu am y baich gweinyddol ychwanegol a'r adnoddau sydd eu hangen ar nifer o adrannau trwyddedu'r awdurdod lle efallai nad yw'n bosibl adennill costau ar gyfer yr awdurdod lleol oherwydd y niferoedd dan sylw a, lle byddai awdurdod ychwanegol, byddant yn derbyn ffi llawer is. Dyma pan rydym yn credu bod y dewis o ganiatáu i grŵp o awdurdodau lleol gydweithio i ddarparu trwyddedu sy'n gyson ac yn caniatáu arbedion maint ac sy'n rhoi'r cyfle i gael mwy o weithgarwch traws ffiniol yn fwy ymarferol.

**Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno â'n cynnig bod swyddogion gorfodi awdurdodau lleol yn cael cosbi gyrrwr tacsi neu CHP sydd wedi torri safon ofynnol genedlaethol wrth weithio yn eu hardal weinyddol ond sydd heb ei drwyddedu yn eu hardal? Rhowch sylwadau.**
Ydym, rydym yn cytuno y byddai hyn yn briodol, fodd bynnag, rydym yn credu y dylai hyn gyd-fynd â phroses ar gyfer rhoi gwybod i'r ardal drwyddedu, a dylid rhoi sylw dyledus i'r amgylchiadau. Er enghraifft, tacsi sydd wedi'i drwyddedu yng Nghaerdydd sydd wedi cludo teithwyr gartref i Gasnewydd sydd yna'n dychwelyd i Gaerdydd ac yn cael ei alw gan ferch sydd ar ei phen ei hun ac sy'n ei chodi hi fyny at ddibenion atal trais yn erbyn merched a genethod ar yr amod eu bod yn gallu dangos na ddylid eu cosbi gan y dylid rhoi blaenoriaeth i ddiogelu.

**Cwestiwn 10: A ydych yn cytuno gyda'n cynnig bod swyddogion gorfodi awdurdodau lleol yn cael atal trwydded a roddir gan awdurdod arall lle ceir perygl yn y fan a'r lle i ddiogelwch y cyhoedd? Rhowch sylwadau.**
Ydym, gyda phroses hawdd ar gyfer rhoi gwybod i'r awdurdod trwyddedu perthnasol.

**Cwestiwn 11: Ydych chi'n cytuno y dylid cyflwyno hysbysiad cosb benodol (FPNs) ar gyfer rhai troseddau gan dacsis ac CHPau? Rhowch sylwadau.**
Ydym, rydym yn cytuno â'r cynnig ar gyfer cyflwyno Rhybuddion Cosb Benodedig. Fodd bynnag, rydym yn credu y dylid cael canllawiau ar nifer y Rhybuddion Cosb Benodedig a ddylid eu rhoi cyn cymryd unrhyw gamau pellach, un ai trwy gael gwared ar drwydded neu gerbyd am gyfnod penodol neu'n barhaol neu fod yn rhaid i'r achos fynd i'r llys. Os nad yw Rhybudd Cosb Benodedig yn cael ei dalu yna efallai y byddai'n briodol defnyddio gwaharddeb sifil fel sy'n digwydd mewn amgylchiadau Rhybuddion Cosb Benodedig eraill.

**Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno y dylid cyflwyno cynllun pwyntiau cosbi cenedlaethol ar gyfer rhai troseddau gan dacsis ac CHPau? Rhowch sylwadau.**
Mewn egwyddor, rydym yn cytuno, ond byddem angen mwy o fanylion o ran sut fydd hyn yn cael ei reoli a'r adnoddau sydd eu hangen ac sy'n ddisgwyliedig a sut fydd hyn yn cael ei ariannu.
Mae'n anodd gwneud sylwadau heb yr holl fanylion a allai ymddangos yn y canllawiau. Er bod yr ymgynghoriad yn sôn na fyddai hyn yn addas ar gyfer gwrthod teithiwr gyda chi cymorth, nid oes unrhyw sôn am wrthod cludo unigolyn diamddiffyn

ar ei ben ei hun a lle byddai hyn yn eistedd o fewn y strwythur newydd arfaethedig o Rybuddion Cosb Benodedig, pwyntiau cosb a gwrandawiad/camau cyfreithiol.

**Cwestiwn 13: Ydych chi'n meddwl bod angen mynd i'r afael â chanlyniadau negyddol 'aml-apio'? Os oes, pa opsiwn, gan gynnwys eich syniadau chi'ch hun, ydych chi'n meddwl fyddai fwyaf effeithiol. Rhowch sylwadau.**
Er nad oes gennym farn ar hyn, rydym yn deall pam y byddai teithwyr a gyrwyr ar apiau lluosog ac wrth i dechnoleg newid, bydd sut y mae'n cael ei ddefnyddio hefyd yn addasu. Fodd bynnag, mae'n bosibl fod deddfwriaeth eisoes yn bod a ellir ei defnyddio ar gyfer hyn, yn enwedig gan fod cofnod o'r cytundeb ac felly unwaith y mae archeb wedi'i dderbyn gan weithredwr ac yna gyrrwr mae'n bosibl y bydd eisoes wedi'i gynnwys yn y ddeddfwriaeth darparu gwasanaethau a nwyddau.

**Cwestiwn 14: ydych chi'n cytuno mai opsiwn A yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â phryderon ynghylch hurio ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr? Rhowch sylwadau gan gynnwys ystyriaethau ymarferol a/neu opsiynau eraill gwell.**
Na, gan ein bod yn credu y byddai bron yn amhosibl i'w weithredu. Rydym yn credu bod yno ddewis llawer mwy syml, sef y dylai unrhyw siwrnai cerbyd hurio preifat/tacsi sy'n cychwyn yng Nghymru gael ei wneud gan ddarparwr, lle bynnag y bo'n bosibl, sydd wedi'i drwyddedu yng Nghymru, gydag eithriadau lle nad oes cerbyd arbenigol ar gael yn yr ardal ar yr adeg honno.

**Cwestiwn 15: Ydych chi'n cytuno y dylai defnyddio cofrestr NR3 yn y broses trwyddedu gyrwyr fod yn orfodol yng Nghymru? Rhowch sylwadau.**
Byddai hyn yn ymddangos fel dull synhwyrol ond dylid monitro'r gost o fod yn rhan o'r gofrestr NR3 i sicrhau ei fod yn darparu gwerth am arian a'i fod hefyd yn darparu'r hyn sydd ei angen i ddiogelu teithwyr a theithwyr posibl yng Nghymru.

**Cwestiwn 16: Ydych chi'n credu y dylai Gweinidogion Cymru gymryd camau i gyflymu'r newid i dacsis/CHPau di-allyriadau? Os ydych, pa rai o'r opsiynau canlynol fyddai orau? Rhowch sylwadau.**

a. **Pennu dyddiad i bob tacsi ac CHP fod yn ddi-allyriadau o'r egsôst**
b. **Pennu terfyn oed ar gyfer cerbydau nad ydynt yn ddi-allyriadau**
c. **Gwneud rhywbeth arall**

Na, er bod y syniad yn ymddangos yn un da, mae pennu dyddiad cau heb yr isadeiledd i gefnogi cerbydau nad ydynt yn gollwng unrhyw allyriadau yn ymddangos yn amhriodol. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o safleoedd tacsi sydd â phwyntiau gwefru cerbydau trydan, ac mae mynediad iddynt wedi'u cyfyngu i unrhyw gerbydau eraill. Dylid cael rhaglen sydd wedi'i hariannu'n genedlaethol ar gyfer yr isadeiledd i gefnogi cerbydau o'r fath cyn bod dyddiadau cau gorfodol yn cael eu pennu.

**Cwestiwn 17: Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer cerbydau Dosbarth B? Rhowch sylwadau.**

O bosibl rydym yn cytuno, ond byddai angen mwy o fanylion arnom o ran defnydd y cerbydau, fel cludiant i'r ysgol, gan y byddem eisiau sicrhau bod y cerbydau a'r gyrwyr yn addas ar gyfer diogelu plentyn neu blant yn rheolaidd. Os oes gyrwyr

rheolaidd yna mae'r risg o gamfanteisio neu gam-drin yn cynyddu gan fod gan y gyrrwr y cyfle i feithrin perthynas gyda'r teithiwr/teithwyr.

**Cwestiwn 18: A oes gennych sylwadau am yr Asesiad Effaith Reoleiddiol a gyhoeddir ochr yn ochr â'r papur hwn.**
Nid oes gennym ddiogon o wybodaeth arbenigol mewn perthynas â'r broses drwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat i roi unrhyw ymateb penodol i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol y tu hwnt i'n hateb i'r cwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad hwn.

**Cwestiwn 19: A oes yna ddata y byddech yn barod i'w darparu i'n helpu i ddatblygu'r RIA hwn?**
Ddim yn berthnasol i Rhwydwaith Cymuneday Mwy Diogel.

**Cwestiwn 20: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**
**Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**
Gwelch atebion i gwestiynau 5 a 7

**Cwestiwn 21: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut, yn eich barn chi, y gellid llunio neu newid y cynigion er mwyn cael effeithiau positif, neu fwy o gyfleoedd positif, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, o ran peidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**
Gwelch atebion i gwestiynau 5 a 7

**Cwestiwn 22: A oes materion eraill y carech eu codi am drwyddedu tacsis ac CHPau?**
Er ei bod yn aml ar wahân i ddiogelwch y cyhoedd, mae'r system drwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat yn bwysig gan eu bod yn ddefnyddwyr ffordd rheolaidd gyda'r gallu i ddylanwadu ar ddiogelwch ar y ffyrdd, ac maent yn aml yn cludo unigolion sy'n ddiamddiffyn oherwydd eu hoedran (plant neu bobl hŷn), gan eu bod yn anabl neu oherwydd eu rhywedd (merch ar ei phen ei hun). Mae ganddynt gyfle posibl i nodi camdriniaeth, dioddefwyr o drais neu reoli drwy orfodi a thrwy ddarparu eu gwasanaethau, gallant atal aflonyddu, ymosodiadau a thrais rhywiol drwy ddarparu cludiant diogel i'r rhai sydd mewn perygl.  Felly rydym yn credu ei fod yn bwysig bod camau diogelu yn cael eu rhoi ar waith trwy broses drwyddedu gadarn i sicrhau bod cymaint o hafanau diogel symudol â phosibl yn cael eu darparu i unigolion ac yn cynorthwyo'r agenda atal.